

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Allure Aesthetics Ltd, Coed-duon

Dyddiad yr arolygiad: 09 Ebrill 2025

Dyddiad cyhoeddi: 10 Gorffennaf 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C - Cynllun gwella	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Allure Aesthetics Ltd ar 09 Ebrill 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Allure Aesthetics yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion mewn amgylchedd glân a dymunol iawn, gyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymrwymedig.

Gwelsom fod prosesau ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Roedd y cofnodion cleifion a welwyd yn dangos bod cydsyniad yn cael ei roi a bod prawf croen yn cael ei gynnal cyn dechrau triniaeth. Cadarnhaodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod hyn yn wir.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gofyn am adborth gan gleifion. Roedd yr adborth hwn yn cael ei fonitro ac roedd camau'n cael eu cymryd i ymateb iddo mewn modd amserol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae'r clinig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Roedd y clinig yn lân ac yn daclus iawn. Roedd yr adeilad wedi'i addurno i safon uchel
- Roedd y staff yn gwrtais, yn ofalgar ac yn gwrandao ar y cleifion
- Roedd gan y clinig system ar waith ar gyfer cael gwybod safbwyntiau'r cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân iawn ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Gwelsom fod y trefniadau diogelwch tân yn dda a bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant tân. Roedd y Profion Offer Cludadwy yn gyfredol ac roedd tystysgrif gosodiadau trydanol ar gael a oedd yn dangos bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben.

Disgrifiodd y staff drefniadau digonol i sicrhau bod y peiriannau laser yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol a diogel. Nodwyd gennym fod gwaith cynnal a chadw a chalibradu arferol wedi cael ei gwblhau ar y laserau. Roedd y rheolau lleol a'r protocolau meddygol wedi cael eu cwblhau fel sy'n ofynnol. Roedd sbectol amddiffynnol briodol ar gael ac mewn cyflwr da.

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio'n briodol ac roedd mesurau diogelu addas ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y safle mewn cyflwr da ac roedd tystysgrifau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn parhau i fod yn addas at y diben
- Roedd y cyfarpar mewn cyflwr da iawn
- Disgrifiwyd prosesau atal a rheoli heintiau da
- Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae gan Allure Aesthetics dîm profiadol, gydag arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd tystiolaeth bod y staff wedi darllen y rhain ac, felly, yn deall eu cynnwys a'u cyfrifoldebau.

Roedd gweithdrefn gwyno ar waith a oedd yn cynnwys amserlenni addas ar gyfer cydnabod cwynion a'u datrys.

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys gwybodaeth briodol, gan gynnwys geiradaon gan gyflogwyr a gwiriadau o gofnodion troseddol. Roedd cyfarfodydd un i un rheolaidd yn cael eu cynnal â phob aelod o'r staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y defnyddwyr awdurdodedig sy'n defnyddio'r peiriant laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn ogystal â hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser

- Roedd nodiadau'r cleifion o safon dda
- Roedd gwiriadau recriwtio ac addasrwydd i weithio priodol ar waith.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Cafwyd cyfanswm o naw ymateb.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn. Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r clinig yn groesawgar ac mae pawb sy'n gweithio yno yn gyfeillgar. Mae pob aelod o'r staff yn wybodus ac yn gallu ateb unrhyw gwestiynau neu ymdrin â phryderon am fy nhriniaethau yn hyderus".

"Rwyf bob amser yn cael gwasanaeth a gofal rhagorol. Mae popeth yn cael ei wirio yn ystod pob ymweliad ac mae'r merched bob amser yn fy nghynghori i gysylltu â nhw os bydd unrhyw broblemau. Does dim byd byth yn ormod o drafferth".

Diogelu a gwella iechyd

Roedd y staff yn Allure Aesthetics yn awyddus i hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw ymhlith eu grŵp o gleientiaid er mwyn sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf o'r triniaethau. Dywedodd y staff y bydd gwybodaeth am y croen a'r gwelliannau y gall cleientiaid eu gwneud yn arwain at groen a fydd yn gwella'n gyflymach.

Roedd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu yn ystod ymgynghoriadau â chleientiaid, a thrwy ddarparu dogfennaeth ôl-ofal ysgrifenedig.

Mae gwybodaeth ar gael ar wefan y gwasanaeth ac mae wedi rhyddhau sawl podlediad fel ffordd o gefnogi a hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw.

Gwelsom fod cleientiaid yn cwblhau ffurflen hanes meddygol cyn cael unrhyw driniaeth. Caiff y ffurflen hon ei diweddarau yn ystod pob apwyntiad er mwyn sicrhau y trafodir unrhyw newidiadau a'r effaith y gallant ei chael ar y cleient.

Urddas a pharch

Gwelsom a chlywsom y staff yn trin y cleientiaid â pharch a charedigrwydd. Cynhaliwyd trafodaethau am eu triniaeth yn yr ystafelloedd trin. Roedd drysau'r ystafelloedd hyn yn cael eu cau er mwyn sicrhau preifatrwydd ac atal unrhyw un arall rhag clywed sgysiau sensitif.

Gwelsom fod cloeon ar ddrysau pob ystafell drin yr oedd angen defnyddio cod i'w hagor a bod arwyddion amlwg i'w gweld ar y tu allan yn hysbysu'r staff a phobl eraill pan fo'r ystafelloedd yn cael eu defnyddio. Gall cleientiaid newid yn yr ystafell drin, mewn preifatrwydd, a chaiff tywelion urddas eu darparu lle y bo'n briodol.

Cawsom wybod y gallai hebryngwyr ddod i'r clinig ond nad oedd caniatâd iddynt fod yn yr ystafell yn ystod triniaethau.

Roedd pawb a atebodd holiadur AGIC yn cytuno'n gryf:

- Bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch
- Bod mesurau ar waith i amddiffyn eu preifatrwydd
- Bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth
- Eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Gwelsom fod pobl yn cael y wybodaeth gywir pan oedd ei hangen arnynt, mewn ffordd y gellid ei deall yn hawdd er mwyn eu helpu i wneud y dewisiadau gorau.

Gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym fod trafodaethau'n cael eu cynnal cyn dechrau unrhyw driniaeth, gan gynnwys risgiau a manteision y driniaeth.

Gwelsom fod y staff yn gofyn i gleifion gydsynio i driniaeth ar ddechrau pob cwrs o driniaeth. Roedd polisi cydsyniad ar sail gwybodaeth gan gleifion ar waith i gefnogi hyn.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, yr opsiynau triniaeth gwahanol, y gost a'r gwasanaethau ôl-ofal.

Caiff y ffurflen hanes meddygol ei chwblhau yn ystod pob triniaeth ac mae'n rhaid i gleifion gwblhau ffurflen gydsynio newydd os bydd unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth a'u bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth newydd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwnaethom edrych ar y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben a gawsom gan y rheolwr cofrestredig. Roedd y ddwy ddogfen yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir. Roedd y rhain ar gael mewn ffolder yn ardal y dderbynfa.

Mae gan y clinig wefan a thaflenni gwybodaeth sy'n darparu gwybodaeth am y triniaethau sydd ar gael.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth bod prisiau triniaethau yn glir ac yn dryloyw. Roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn yr ymatebion a gawsom i'n holiadur hefyd, lle roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod cost y driniaeth wedi'i nodi'n glir cyn iddynt gael y driniaeth honno.

Dywedwyd wrthym nad oedd y gwasanaeth wedi cael unrhyw geisiadau gan gleientiaid i gael gwasanaethau yn Gymraeg. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr y byddai'n ceisio sicrhau bod trefniadau ar waith pe bai unrhyw gleient yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg.

Cynllunio a darparu gofal

Mae pob claf yn cael apwyntiad ymgynghori cyn i'r driniaeth ddechrau, sy'n cynnwys asesu'r math o groen. Gwelsom esiamplau o wybodaeth dda a dogfennau ôl-ofal a roddir i gleifion, sy'n cynnwys manylion am y peryglon a manteision y triniaethau.

Roedd nodiadau cleifion unigol manwl ar gael, ac roedd tystiolaeth o brosesau da ar gyfer cadw cofnodion. Roedd dogfennaeth dda ar waith yn ymdrin â math o groen, cydsynio i driniaeth a hanes meddygol.

Roedd cofrestr triniaeth gyfredol yn cael ei chadw.

Cadarnhaodd pob claf eu bod yn cwblhau'r ffurflen hanes meddygol a/neu wedi cael eu ffurflen hanes meddygol wedi ei wirio cyn cynnal unrhyw driniaeth. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion hefyd eu bod yn cael prawf croen er mwyn penderfynu ar osodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y laser cyn cael triniaeth; a chadarnhaodd pob claf ei fod wedi llofnodi ffurflen cydsyniad cyn cael triniaeth newydd.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Cawsom sicrwydd bod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchodedig ai peidio, a bod pob aelod o staff a chlaf yn cael ei drin yn deg. Dywedwyd wrthym y byddai hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn, ac y byddai enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael

eu defnyddio yn ôl y gofyn. Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar y pwnc hwn.

Cadarnhaodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i gael adborth cleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom nodi bod adolygiadau ar-lein yn cael eu monitro'n weithredol a bod y clinig wedi gwneud newidiadau i'r system trefnu apwyntiadau a'i dudalennau cyfryngau cymdeithasol o ganlyniad i hynny, ac roeddem o'r farn bod hyn yn arfer da.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Gwelsom fod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben. Roedd y clinig yn ymddangos yn lân ac mewn cyflwr da, gan gynnwys y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau.

Ni welsom unrhyw beryglon baglu amlwg ac roedd mesurau diogelwch digonol ar waith i atal mynediad heb awdurdod.

Gwelsom dystiolaeth bod Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal, er mwyn helpu i sicrhau bod yr offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwiriad weirio trydanol wedi cael ei gynnal o'r adeilad yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Gwelsom dystysgrif diogelwch nwy a oedd yn dangos bod yr offer nwy yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer diogelwch tân a gwelsom fod y cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu'n flynyddol a bod arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân. Roedd asesiadau risg tân ar waith, a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd profion larwm tân yn cael eu cynnal bob wythnos. Roedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelwch tân.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd y clinig yn cymryd mesurau priodol i reoli'r risg i iechyd a diogelwch. Roedd asesiad iechyd a diogelwch ar waith a oedd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd i sicrhau bod unrhyw faterion a nodir yn cael eu rheoli.

Roedd trefniadau addas ar waith i ymateb i argyfyngau cleifion. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael a gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau misol yn cael eu cynnal i sicrhau bod yr eitemau yn y pecyn cymorth cyntaf yn gyfredol. Dywedwyd wrthym fod aelod o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf bob amser ar gael yn y clinig.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd y dodrefn a ddefnyddir ar gyfer triniaethau, y cyfarpar a'r ffitiadau wedi'u gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau'n hawdd. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau â'r rheolwr cofrestredig ac roeddem o'r farn eu bod yn briodol i ddiogelu'r cleifion rhag haint.

Gwelsom fod polisi atal a rheoli heintiau ar waith a bod amserlenni glanhau yn cael eu defnyddio. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol a gwelsom fod contract ar waith gyda chlodwr gwastraff cymeradwy.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y clinig yn lân iawn, yn eu barn nhw.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Dim ond cleifion dros 18 oed y mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i'w trin. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn cydymffurfio â hyn.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n delio ag unrhyw faterion diogelu oedolion. Roedd polisi diogelu ar waith gyda gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai pryder diogelu yn ymwneud ag oedolion a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm atgyfeirio diogelu lleol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ar y lefel ofynnol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd tystysgrif gwasanaethu a chalibradu flynyddol gyfredol ar gael ar gyfer y peiriannau laser. Roedd protocolau trin ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) a rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant yn ddiogel. Caiff y rheolau lleol eu hadolygu'n rheolaidd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'u llofnodi gan y staff sy'n defnyddio'r peiriannau laser.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod pob un o'r gweithredwyr laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant laser.

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwr laser. Roedd y cyfarpar amddiffyn y llygaid yn ymddangos mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod sbectolau yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Roedd arwydd y tu allan i'r ystafelloedd trin i ddangos pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod drws yr ystafelloedd trin yn cael ei gloi pan fydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau bob amser yn ddiogel gan fod pad cod allwedd ar ddrws pob ystafell drin a bod yr allweddi yn cael eu tynnu o'r peiriannau laser er mwyn atal rhywun rhag eu defnyddio heb awdurdod.

Roedd yr asesiadau risg wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn unol â'r rheoliadau, mae'r rheolwr cofrestredig yn ceisio cael safbwyntiau'r cleifion yn aml fel ffordd o hysbysu gofal, yn cynnal archwiliadau o gofnodion i sicrhau bod y wybodaeth yn gyson ac yn asesu'r risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth bod nodiadau'r cleifion yn cael eu cynnal i safon dda.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar Allure Aesthetics, ac mae'n cael ei gefnogi gan dîm bach o staff. Dywedwyd wrthym fod llinellau atebolrwydd clir yn y clinig, ac roedd staff yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Gwelsom fod tystysgrif cofrestru gyfredol gan AGIC ac atodlen gysylltiedig yn cynnwys amodau'r cofrestriad yn cael eu harddangos yn y clinig fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Gwelsom fod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiâu ar waith ac roedd tystiolaeth i gadarnhau bod y staff wedi eu llofnodi i ddangos eu bod wedi darllen a deall y dogfennau.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi cwynion ar waith, a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer AGIC yn unol â gofynion rheoleiddiol. Roedd manylion y weithdrefn gwyno hefyd wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben.

Mae gan y practis system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol ac anffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Nododd y rheolwr cofrestredig fod y tîm o staff cyfredol wedi hen ymsefydlu a disgrifiodd y prosesau recriwtio. Caiff swyddi gwag eu hysbysebu, a chaiff darpar staff eu cyfweld. Gofynnir am eiradau ar eu cyfer a chaiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) eu cynnal. Disgwylir i staff newydd sy'n cael eu penodi gwblhau cyfnod sefydlu. Roedd polisi recriwtio ar waith a oedd yn ategu'r broses recriwtio a ddisgrifiwyd i ni.

Ni fyddai defnyddwyr awdurdodedig yn defnyddio'r peiriant laser heb hyfforddiant priodol a chyfnod o fonitro profiad aelodau newydd o staff o gynnal ymgynghoriadau a defnyddio'r peiriannau laser.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd niferoedd digonol o staff cymwys a oedd yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol i ddarparu gofal a thriniaeth diogel.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr awdurdodedig sy'n defnyddio'r peiriannau laser. Caiff cofnodlyfr hyfforddiant ei gadw i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.

Roedd cyfarfodydd un i un yn cael eu cynnal a'u dogfennu ar gyfer pob aelod o'r staff, a oedd yn cynnwys gofynion perfformiad ac unrhyw ofynion datblygu. Gan fod y tîm yn fach, nid oedd unrhyw gofnodion ffurfiol o gyfarfodydd yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y tîm yn siarad yn ddyddiol ac y byddai negeseuon allweddol yn cael eu rhannu.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Allure Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 9 Ebrill 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Allure Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 9 Ebrill 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sophia Roisin Hopkins

Swydd: Cyfarwyddwr

Dyddiad: 13/05/2025